**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Y Bil Pleidleisio Absennol (Etholiadau yng Nghymru a'r Alban)**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2(ii). Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru mewn perthynas ag unrhyw Fil Aelod Preifat y DU, sydd o dan ystyriaeth yn Senedd y DU, sy'n gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Pleidleisio Absennol (Etholiadau yng Nghymru a'r Alban) ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Hydref 2024. Mae'r Bil, [fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus] i'w weld yn: Bil Pleidleisio Absennol (Etholiadau yng Nghymru a'r Alban) - Biliau Seneddol - Senedd y DU

## Amcanion Polisi

3. Amcanion polisi datganedig y Bil yw gwneud darpariaeth newydd ar gyfer y gyfraith etholiadol bresennol a'i diwygio i'w gwneud yn haws ac yn fwy cyfleus i bleidleiswyr yng Nghymru a'r Alban wneud cais am drefniadau pleidleisio drwy'r post a threfniadau pleidleisio drwy ddirprwy.

## Crynodeb o'r Bil

4. Mae'r Bil yn fil gan aelod preifat a noddir gan Tracy Gilbert, AS Gogledd Caeredin a Leith ("yr Aelod").

5. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn ymdrin â'r canlynol:

    a) Rhoi pwerau cydredol i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban (yn ddarostyngedig i gydsyniad Gweinidog y Goron i'w harfer) â Gweinidog y Goron i gyflwyno rheoliadau i alluogi ceisiadau am bleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau datganoledig i gael eu gwneud ar-lein gan ddefnyddio Gwasanaeth Digidol y DU ("UKDS").

    b) Darparu pwerau i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, a gaiff eu defnyddio yn ddiweddarach mewn is-ddeddfwriaeth, i gynnwys gofyniad gwirhau hunaniaeth ar geisiadau am bleidleisio absennol. Mae hwn yn wiriad ymlaen llaw ar yr adeg y gwneir y cais am bleidlais drwy'r bost neu drwy ddirprwy ac fe fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ddarparu ei rif Yswiriant Gwladol, neu dystiolaeth amgen os yw'r gwiriad hwnnw'n aflwyddiannus.

    c) Cysoni cylchoedd adnewyddu pleidleisio drwy'r post ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru

a'r Alban. Cafodd y cylch ar gyfer adnewyddu ceisiadau pleidleisio drwy'r post ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl ei newid gan Ddeddf Etholiadau 2022. O'r herwydd, yn lle gorfod adnewyddu eu llofnod bob pum mlynedd, rhaid i etholwyr ailymgeisio am eu trefniant pleidleisio drwy'r post bob rhyw dair blynedd. Bydd y Bil hwn yn gwneud adnewyddiadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol datganoledig yn gydnaws ag etholiadau a gedwir yn ôl.

d) Darparu pwerau i wneud darpariaethau trosiannol ynghylch unigolion sydd â threfniadau pleidleisio absennol sy'n bodoli eisoes ar yr adeg y mae'r Bil yn cael effaith.

6. Mae swyddogion o Lywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â'i gilydd wrth i'r Bil gael ei ddatblygu. Cytunodd y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru yn ei gyfarfod ar 12 Chwefror 2025 fod ymestyn ceisiadau pleidleisio absennol ar-lein i etholiadau datganoledig yn nod cyffredin hanfodol. Bydd y cyswllt hwn yn parhau ar lefel swyddogion a Gweinidogion yn ôl y gofyn.

7. Ysgrifennais at yr Aelod ar 19 Rhagfyr 2024 yn mynegi cefnogaeth i'r Bil.

8. Mae'r Bil yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol i raddau helaeth sy'n cynnwys:

a) Rheolau sy'n ymwneud â Gwasanaeth Digidol y DU, ac etholiadau lleol penodol (Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (“Deddf 1983”))

b) Rheolau sy'n ymwneud â threfniadau pleidleisio absennol (Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (“Deddf 2000”))

c) Pwerau sy'n ymwneud ag etholiadau i Senedd yr Alban (Deddf yr Alban 1998)

d) Pwerau sy'n ymwneud ag etholiadau i Senedd Cymru (Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf Llywodraeth Cymru 2006”))

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

9. Credaf fod y prawf yn RhS 29 wedi'i fodloni mewn perthynas â'r Bil a bod angen cydsyniad y Senedd mewn cysylltiad â chymalau 1, 3 a 4 o'r Bil sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru o ran materion datganoledig.

10. Mae Cymal 1 yn diwygio:

a) Deddf 1983, drwy fewnosod paragraff 5ZB newydd yn Atodlen 2, i roi pwerau cydredol i Weinidogion Cymru a'r Alban â Gweinidog y Goron i gyflwyno rheoliadau i alluogi ceisiadau am bleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau llywodraeth

leol yng Nghymru a'r Alban i gael eu gwneud ar-lein gan ddefnyddio'r UKDS (cymal 1(1) a (3) o'r Bil). Mae rheoliadau o'r fath a wneir gan Weinidogion Cymru a'r Alban yn gofyn am gytundeb Gweinidog y Goron ymlaen llaw. Mae gan y darpariaethau hyn effaith ar gynnal a gweithredu etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru o ran sut yr ymdrinnir â cheisiadau pleidleisio absennol ar gyfer etholiadau o'r fath, gan effeithio ar faterion datganoledig;

b) paragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 1983 i ddarparu pwerau i Weinidogion Cymru a'r Alban, a ddefnyddir yn ddiweddarach mewn is-ddeddfwriaeth, i gynnwys gofyniad gwirhau hunaniaeth ar geisiadau am bleidleisio absennol (cymal 1(1) a (2) o'r Bil). Nid yw'r diwygiad hwn yn ymwneud ag UKDS yn unig; mae'n ymwneud â phleidleisio absennol yn fwy cyffredinol. Prif ddiben y darpariaethau hyn yw darparu pŵer gwneud rheoliadau fel y gellir gwneud rheoliadau i ddarparu modd i swyddogion cofrestru wirhau hunaniaeth a gwybodaeth a ddarperir mewn cysylltiad â cheisiadau pleidleisio absennol yn gyffredinol er mwyn caniatáu gwirhau ceisiadau o'r fath. Mae'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd; ac

c) Atodlen 4 i Ddeddf 2000 i ddiwygio'r cylchoedd adnewyddu pleidleisio drwy'r post ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru a'r Alban, fel bod adnewyddiadau ar gyfer etholiadau o'r fath yn cael eu gwneud yn gydnaws ag etholiadau a gedwir yn ôl (cymal 1(4)-(6) o'r Bil). Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer caniatáu pleidlais drwy'r post a'r cyfnod y mae'r bleidlais honno'n ddilys ar ei gyfer, mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac mae darpariaethau o'r fath o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

11. Mae cymal 3 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru, gan fewnosod adran 13B newydd, i roi pwerau cydredol i Weinidogion Cymru â Gweinidog y Goron i gyflwyno rheoliadau i alluogi ceisiadau am bleidlais drwy'r post a phleidlais drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau'r Senedd yng Nghymru i gael eu gwneud ar-lein gan ddefnyddio UKDS. Mae rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran 13B newydd yn gofyn am gytundeb Gweinidog y Goron ymlaen llaw ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn y Senedd. Mae gan y darpariaethau hyn effaith ar gynnal a gweithredu etholiadau'r Senedd yng Nghymru o ran sut yr ymdrinnir â cheisiadau pleidleisio absennol ar gyfer etholiadau o'r fath, gan effeithio ar faterion datganoledig.

12. Mae cymal 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch cychwyn y Bil, ac mae hyn yn cynnwys pŵer yng nghymal 4(2) o'r Bil i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu ar y diwrnod y bydd cymal 1(4) i (6) o'r Bil (sef y diwygiadau i Atodlen 4 i Ddeddf 2000 i newid y cylch adnewyddu pleidlais drwy'r post) yn dod i rym drwy reoliadau a wneir gan ddefnyddio offeryn statudol. Mae cymal 4 yn rhoi pŵer hefyd i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud y cyfryw ddarpariaeth drosiannol a/neu arbed ag y gwelant yn briodol mewn

cysylltiad â dod ag unrhyw un neu rai o ddarpariaethau'r Bil i rym. Mae'r pwerau cychwyn yng nghymal 4(2) yn ymwneud â chychwyn cymal 1(4)–(6) o'r Bil. Mae'r darpariaethau hynny wedi'u datganoli'n llwyr ac maent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Nid oes gofyniad i Weinidogion Cymru roi eu cydsyniad i arfer y pŵer hwn gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r pwerau trosiannol a gyflwynir yng Nghymal 4 yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol a gellir eu harfer mewn perthynas â meysydd a gedwir yn ôl a meysydd datganoledig ac maent yn ymwneud â chymalau eraill yn y Bil sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sydd o leiaf yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i fater datganoledig etholiadau.

13. Am y rhesymau a nodir uchod, bernir bod Cymalau 1, 3 a 4 yn gwneud darpariaethau perthnasol o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig ac felly mae'n ofynnol gosod LCM mewn perthynas â'r darpariaethau hyn o dan Reol Sefydlog 29.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

14. Yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil, mae'r Aelod yn cadarnhau bod y broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei defnyddio (mewn perthynas â Chymru) gan gymalau 1, 3 a 4 o'r Bil yn unig. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn cydnabod bod y Bil yn gymwys i benderfyniadau'r Gweinyddiaethau Datganoledig ac y gellir dweud ei fod yn addasu cymhwysedd gweithredol.

15. Ysgrifennodd yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ddigartrefedd a Democratiaeth ataf ar 20 Chwefror i gadarnhau ei bod yn cytuno â'r asesiad hwn y byddai cymalau 1, 3 a 4 yn defnyddio'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Pleidleisio Absennol (Etholiadau yng Nghymru a'r Alban) - Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil**

16. Bydd y Bil yn ymestyn mynediad at y system bresennol o Ymgeisio Ar-lein am Bleidlais Absennol (“OAVA”) i etholiadau Cymru a'r Alban. Mae'r system yn darparu llwybr cyfleus i'r cyhoedd wneud cais am bleidlais drwy'r post neu bleidlais drwy ddirprwy ac yn cydbwyso hygyrchedd y cyhoedd a diogelwch etholiadol yn gywir.

17. Bydd ymestyn y system i etholiadau Cymru hefyd yn lliniaru'r baich gweinyddol ar dimau etholiadol yng Nghymru.

18. Er bod y pwerau i newid rheolau ar gyfer yr etholiadau a gwmpesir gan y Bil wedi'u datganoli, mae'r broses ymgeisio ar-lein yn rhan o UKDS ac mae gweithrediad UKDS wedi'i gadw yn ôl i Senedd y DU a gweinidogion yn Llywodraeth y DU. Er mwyn i'r darpariaethau weithio, mae angen gwneud darpariaethau mewn perthynas ag UKDS, a heb hyn ni chyflawnir effaith polisi'r darpariaethau.

19. Ni fyddai modd ymestyn mynediad y system OAVA bresennol, na datblygu system annibynnol i effaith debyg, heb fynediad at UKDS. Gellid sefydlu system gyfochrog ag UKDS at ddibenion cofrestru datganoledig yn unig, ond byddai hyn yn afresymol o ddrud ac yn creu cymhlethdod i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a dryswch i bleidleiswyr.

20. Mae'r Bil yn gwneud diwygiadau i Ddeddf 1983 i ddarparu pwerau i Weinidogion Cymru a'r Alban a gaiff eu defnyddio yn ddiweddarach mewn is-ddeddfwriaeth i gynnwys gofyniad gwirhau hunaniaeth ar geisiadau am bleidleisio absennol. Mae'r Bil yn gwneud diwygiadau hefyd i Ddeddf 2000, sy'n caniatáu ceisiadau am bleidlais drwy'r post am gyfnod amhenodol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol datganoledig gyda'r llofnod yn cael ei adnewyddu bob pum mlynedd. O dan y newidiadau, ni chaiff cais i bleidleisio drwy'r post a ganiateir mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru neu'r Alban fod yn fwy na thair blynedd. Mae angen y newidiadau hyn i sicrhau cydnawsedd â Llywodraeth y DU ac i osgoi amserlenni a gofynion sy'n gwrthdaro, gan wneud y system OAVA yn llai dryslyd i bleidleiswyr a lleihau'r baich ar weinyddwyr etholiadol. Er y byddai'r newidiadau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd byddai arnynt angen cyfrwng deddfwriaethol sylfaenol priodol i fwrw ymlaen â hwy, na fyddai'n bosibl o fewn yr amserlen sy'n ofynnol i gyflwyno'r system cyn etholiadau'r Senedd 2026. Mae angen pob un o'r diwygiadau er mwyn darparu set lawn o reoliadau ac i sicrhau cydnawsedd llawn â Llywodraeth y DU, sy'n ofyniad ar gyfer defnyddio UKDS ar gyfer ceisiadau am bleidleisio absennol datganoledig ac mae angen i'r holl ddarpariaethau fod ar waith fel y gall Gweinidogion Cymru wneud y rheoliadau perthnasol i ddarparu y gall OAVA ar gyfer Etholiadau Cymreig fod ar waith erbyn mis Rhagfyr 2025 fan bellaf.

21. Mae natur ryng-gysylltiedig y systemau gweinyddol perthnasol yng Nghymru, yr Alban a'r systemau gweinyddol a gedwir yn ôl– yn benodol, y systemau technegol a rennir sy'n gweithredu etholiadau datganoledig ac etholiadau a gedwir yn ôl – yn ei gwneud yn ofynnol bwrw ymlaen â'r newidiadau ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol.

**Goblygiadau ariannol**

22. Bydd ymestyn y system OAVA i etholiadau datganoledig yng Nghymru a'r Alban yn golygu newidiadau i'r systemau rheoli etholiadol a ddefnyddir gan yr Awdurdodau Lleol. Bydd angen gwneud newidiadau hefyd i systemau mewnol sy'n cael eu gweithredu gan Lywodraeth y DU.

23. Amcangyfrifir bod y costau ar gyfer y newidiadau hyn yn uwch na £2.4M. Bydd y swm sy'n daladwy gan Lywodraeth Cymru yn destun negodi â chyflenwyr a rhannu'r gost â Llywodraeth yr Alban.

**Casgliad**

24. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU gan fod UKDS yn hanfodol i weithrediad y system OAVA fel y'i rhagwelwyd. Mae un system ymgeisio ledled y DU yn fuddiol i bleidleiswyr a gweinyddu etholiadol fel ei gilydd. Mae'r Bil hwn yn caniatáu ar gyfer cydgysylltu a chysoni rhwng Llywodraethau Cymru, yr Alban a'r DU.

25. Felly, rwyf yn argymell y dylai Senedd Cymru gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**25 Mehefin 2025**